

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol

Dyddiad:

3ydd Ebrill 2025

Presennol

Richard Williams (Cadeirydd), Raymond Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin) Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Richard Parry (Bryncir), Enid Egginton, John Jones (Garndolbenmaen), Gwilym Evans (Prenteg) Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Cyngorydd June Jones, Cyngorydd Stephen Churchman (Cyngorwyr Cyngor Gwynedd),

Ymddiheuriadau

Clifford Williams (Garndolbenmaen), Jess Williams (Penmorfa), Edward Evans (Bryncir)

Datgan Buddiant

Neb

Penderfyniadau

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Taliad am gostau ychwanegol gweithio gartref - Gorfodol

Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd yn rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni a band eang) o ganlyniad i weithio gartref.

Taliad penodol am nwyddau traul - Gorfodol

Mae'n rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall mae'n rhaid i gynghorau ei gwneud yn bosibl i'w haelodau hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa.

Mater i bob cyngor yw gwneud a chofnodi penderfyniad polisi mewn perthynas â phryd a sut y caiff y taliadau eu gwneud ac a ydynt yn cael eu talu'n fisol, yn flynyddol neu fel arall. Dylai'r polisi hefyd nodi a fydd unrhyw daliadau a wneir i aelod sy'n gadael neu sy'n newid ei rôl yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael eu hadennill, a sut.

Lwfans Mynychu - Gorfodol

Gall pob cyngor benderfynu cyflwyno lwfans mynychu i'r aelodau. Ni ddylai swm pob taliad fod yn fwy na £30. Ni fydd gan aelod sydd mewn colled ariannol hawl i gael lwfans mynychu ar gyfer yr un digwyddiad.

Am fod y taliad am fynychu yn ddewisol, dylai'r cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol cyntaf, benderfynu'n ffurfiol p'un a ddylid gwneud y taliadau hyn ai peidio. Os bydd y cyngor yn penderfynu o blaid lwfansau mynychu, rhaid iddo lunio Cynllun ar gyfer ei fabwysiadu'n ffurfiol, gwneud darpariaeth iddo gael ei gyhoeddi a hysbysu'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Yr uchafswm gorfodol ar gyfer pob digwyddiad cymwys yw £30. Nid oes unrhyw isafswm penodedig.

Rhaid i daliadau am fynychu ymwneud â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy a nodir yn Rheolau Sefydlog y cyngor neu, fel arall, drwy benderfyniad penodol. Dylai'r cynllun nodi ar gyfer pa ddigwyddiadau y gwneir taliadau.

Bydd gan bob aelod o'r cyngor yr hawl i gael y taliad am fynychu'r digwyddiadau a nodir yn y cynllun, ond gall aelod unigol wrthod derbyn y taliad drwy hysbysu'r swyddog priodol (yn ysgrifenedig).

Penderfyniad: Mabwysiadwyd yr uchod

Digolledu am Gollod Ariannol: Penderfyniad 8

Taliad dewisol yw digolledu am gollod ariannol.

Mae'r Panel wedi penderfynu y dylai'r taliad hwn gyd-fynd â chyfradd ddyddiol ASHE, sef £126.74 am ddiwrnod llawn a £63.37 am hanner diwrnod.

Uwch Rôl - Dewisol Hyd at 3 Aelod

Mae'r taliad ar gyfer aelodau sy'n ymgymryd ag uwch swyddogaeth yn swm blynyddol o £500.

Penderfyniad: Gwrthod yr uchod.

Maer neu Gadeirydd - Dewisol hyd at Uchafswm i £1,500

Gall Cyngorau Tref a Chymuned ddarparu taliad i Faer neu Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £156 ar gyfer costau sy'n

gysylltiedig â gweithio gartref a'r swm sefydlog o £52 ar gyfer nwyddau traul swyddfa a'r uwch gyflog o £500 os hawlir y rhain.

Er eglurder, mae Cynghorau yn talu NAILL AI taliad maer neu gadeirydd o hyd at £1500 NEU daliad uwch gyflog o £500, ond nid y ddau.

Penderfyniad: Gwrthod yr uchod

Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd - Dewisol hyd at Uchafswm o £500

Gall Cynghorau Tref a Chymuned ddarparu taliad i Ddirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £156 ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gweithio gartref a'r swm sefydlog o £52 ar gyfer nwyddau traul swyddfa a'r uwch gyflog o £500 os hawlir y rhain.

Er eglurder, mae Cynghorau yn talu NAILL AI taliad dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd o hyd at £500 NEU daliad uwch gyflog o £500, ond nid y ddau.

Penderfyniad: Gwrthod yr uchod.

Lwfans Presenoldeb - Dewisol

Gall pob Cyngor benderfynu cyflwyno lwfans mynychu i'r aelodau. Ni chaiff unrhyw daliad fod yn fwy na £30. Ni fydd gan aelod sydd mewn colled ariannol hawl i gael lwfans mynychu ar gyfer yr un digwyddiad.

Penderfyniad: Gwrthod yr uchod

Colled Ariannol - Dewisol

Gall Cynghorau Cymuned a Thref dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:

Hyd at £59.81 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr

Hyd at £119.62 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr

Penderfyniad: Mabwysiadwyd yr uchod.

Teithio a Chynhaliaeth - Dewisol

Gall Cynghorau Cymuned a Thref benderfynu talu costau teithio a/neu gynhaliaeth pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau ei Fawrhydi.

Os yw'r Cyngor Tref neu Gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau.

Penderfyniad: Mabwysiadwyd

Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol - Gorfodol

Rhaid i'r Cyngor Cymuned ddarparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol). Rhaid i hyn fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy.

Penderfyniad: Mabwysiadwyd

Lleoliad y Cyfarfod Blynyddol

Penderfynwyd cynnal y cyfarfod blynyddol yn Neuadd Goffa Penmorfa.